**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 11 Chwefror 2019 am 11.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| G J Tanner | C A Holley | P R Hood-Williams |
| Y V Jardine | P K Jones | S M Jones |
| J W Jones | E T Kirchner | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mark Child | Aelod y Cabinet - Gofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Deborah Reed | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Aelodau Cyfetholedig: T Beddow

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datgeliadau o gysylltiadau - Chris Holley a Mark Child

2 **Cynigion Drafft Cyllideb y Gwasanaethau i Oedolion**

Trafododd y Cynghorydd Mark Child, Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda, Dave Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, a Deb Reed, Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion y cynigion cyllidebol arfaethedig mewn perthynas â'r Gwasanaethau i Oedolion gan amlygu'r prif faterion ac ateb cwestiynau.

3 **Crynhoi Barn a Chyflwyno Argymhellion**

Cytunodd y panel â'r farn a'r argymhellion canlynol am y cynigion cyllidebol mewn perthynas â'r Gwasanaethau i Oedolion yr hoffai eu cyflwyno i'r Cabinet:

- Cyflawnwyd 80% o'r arbedion arfaethedig yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r targed arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf felly yn ymddangos yn uchelgeisiol, yn enwedig gan fod llawer o'r gwariant yn cael eu harwain gan alw.

- Gan ein bod ni wedi gorwario £1 filiwn eleni o ganlyniad i 'wrthwynebiad gan y BILl i drafod cyfraniadau cyfiawn ac addas tuag at becynnau gofal a nodwyd' roedd pryder ymysg y panel y bydd hon yn broblem barhaus yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd y panel yn teimlo bod angen datrys hyn cyn gynted â phosib os ydym am lynu wrth y gyllideb ar gyfer 2019-20.
- Nid yw'n glir pryd bydd arbedion o bob un o'r adolygiadau comisiynu gwasanaeth yn dechrau neu ba arbedion sy'n berthnasol i ba adolygiad. Mae'r broses yn ymddangos yn eithaf aneglur o safbwynt y panel a byddem yn croesawu dadansoddiad mwy manwl.
- Byddwn yn trafod y gyllideb eto ym mis Hydref fel y gallwn ni fonitro canlyniadau'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig yn fwy gofalus.

Yn dilyn y cyfarfod hwn:

Bydd y cynullydd yn cyflwyno barn y panel, ar y cyd â chynullyddion paneli eraill, i'r Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid, sy'n cwrdd ar 12 Chwefror. Bydd cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid yna'n mynd i gyfarfod y Cabinet ar 14 Chwefror i gyflwyno barn gyfunol paneli perfformiad craffu ac ysgrifennu llythyr at Aelod y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm.